# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 25 Mawrth 2014**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(189)

### 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd cwestiynau 1 i 2 a 4 i 15. Tynnwyd cwestiwn 3 yn ôl. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

### 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14.18

### 3 Datganiad gan y Prif Weinidog: Datganiad Polisi am yr Iaith Gymraeg - Ymateb i Adroddiadau ar y Mentrau Iaith a Chymunedau Cymraeg

Dechreuodd yr eitem am 14.27

### 4 Rheoliadau Atal Twyll Tai Cymdeithasol (Darganfod Twyll) (Cymru) 2014

Dechreuodd yr eitem am 14.56

**NDM5473 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o’r Rheoliadau Atal Twyll Tai Cymdeithasol (Darganfod Twyll) (Cymru) 2014 yn cael ei lunio yn unol â’r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Ionawr 2014.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 5 Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau’r Dreth Gyngor (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2014

Dechreuodd yr eitem am 14.56

**NDM5472 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o’r Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2014 yn cael ei lunio yn unol â’r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Mawrth 2014.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 6 Dadl: Darparu Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru

Dechreuodd yr eitem am 14.58

**NDM5474 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi’r gwaith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud gyda’r Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru i ddarparu cymunedau diogelach i ddinasyddion.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi gyda phryder y cynnydd yn nifer yr ymosodiadau ar griwiau tân ac achub ac effaith hyn ar sicrhau cymunedau mwy diogel.

**Derbyniwyd gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Gwelliant 2 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru, y Gwasanaethau Tân ac Achub a'r trydydd sector i gynnal gwerthusiad cadarn ar y cyd o ymyriadau diogelwch tân.

**Derbyniwyd gwelliant 2 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Gwelliant 3 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod y gwaith hanfodol y mae diffoddwyr tân yn ei wneud- a bod cymunedau Cymru yn dibynnu arnynt am lawer mwy na diffodd tân.

**Derbyniwyd gwelliant 3 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a gweddill y gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

**Gwelliant 4 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y dylid cael dull gweithredu cenedlaethol ar gyfer y gwasanaeth tân ac achub lle mae penderfyniadau gweithredol strategol yn cael eu gwneud ar sail anghenion y gwasanaeth.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 41 | 11 | 0 | 52 |

**Derbyniwyd gwelliant 4.**

**Gwelliant 5 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno cynigion i edrych ar strwythur Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 41 | 0 | 11 | 52 |

**Derbyniwyd gwelliant 5.**

**Gwelliant 6 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio’n agos gyda'r Awdurdodau Tân ac Achub i sicrhau bod y ddarpariaeth yn briodol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 6:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 52 | 0 | 0 | 52 |

**Derbyniwyd gwelliant 6.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi’i ddiwygio:**

**NDM5474 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1.Yn nodi’r gwaith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud gyda’r Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru i ddarparu cymunedau diogelach i ddinasyddion.

2. Yn nodi gyda phryder y cynnydd yn nifer yr ymosodiadau ar griwiau tân ac achub ac effaith hyn ar sicrhau cymunedau mwy diogel.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru, y Gwasanaethau Tân ac Achub a’r trydydd sector i gynnal gwerthusiad cadarn ar y cyd o ymyriadau diogelwch tân.

4. Yn cydnabod y gwaith hanfodol y mae diffoddwyr tân yn ei wneud– a bod cymunedau Cymru yn dibynnu arnynt am lawer mwy na diffodd tân.

5. Yn credu y dylid cael dull gweithredu cenedlaethol ar gyfer y gwasanaeth tân ac achub lle mae penderfyniadau gweithredol strategol yn cael eu gwneud ar sail anghenion y gwasanaeth.

6. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno cynigion i edrych ar strwythur Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru.

7. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio'n agos gyda'r Awdurdodau Tân ac Achub i sicrhau bod y ddarpariaeth yn briodol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 41 | 11 | 0 | 52 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

## 7 Dadl: Mynd i'r Afael ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol sy'n ymwneud â Thai

Dechreuodd yr eitem am 15.45

**NDM5475 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod yr effaith negyddol y mae ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n ymwneud â thai yn gallu ei chael ar bobl ac ar eu hiechyd a'u lles;

2. Yn nodi canfyddiadau ymchwil Llywodraeth Cymru "Wales Anti-Social behaviour: Policy and Practice Review" fel sail ar gyfer gweithredu pellach; ac

3. Yn galw ar sefydliadau perthnasol yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector i weithio gyda'i gilydd i daclo ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n ymwneud â thai.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant1 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys pwynt 2 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn credu bod polisïau a gweithdrefnau sy’n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn fwyaf effeithiol pan maent yn canolbwyntio ar ymyriadau cynnar, atal a chydweithio rhwng asiantaethau.

**Derbyniwyd gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Gwelliant 2 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ym mhwynt 2, cynnwys ‘ac argymhellion allweddol’ ar ôl ‘canfyddiadau’

**Derbyniwyd gwelliant 2 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Gwelliant 3 - Elin Jones (Ceredigion)**

Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod cyrff perthnasol yn y sector cyhoeddus ac yn y trydydd sector yn cydweithio'n fwy effeithiol i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig â thai.

**Derbyniwyd gwelliant 3 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a gweddill y gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

**Gwelliant 4 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod y gorgyffwrdd helaeth rhwng meysydd fel tai, ymddygiad gwrthgymdeithasol, diogelwch cymunedol a phlismona, ac yn credu y byddai modd mynd i’r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol sy’n gysylltiedig â thai mewn ffordd fwy effeithiol pe bai pob un o'r meysydd hyn yn cael eu datganoli.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 41 | 0 | 11 | 52 |

**Derbyniwyd gwelliant 4.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi’i ddiwygio:**

**NDM5475 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod yr effaith negyddol y mae ymddygiad gwrthgymdeithasol sy’n ymwneud â thai yn gallu ei chael ar bobl ac ar eu hiechyd a’u lles;

2. Yn credu bod polisïau a gweithdrefnau sy’n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn fwyaf effeithiol pan maent yn canolbwyntio ar ymyriadau cynnar, atal a chydweithio rhwng asiantaethau;

3. Yn nodi canfyddiadau ac argymhellion allweddol ymchwil Llywodraeth Cymru “Wales Anti-Social behaviour: Policy and Practice Review” fel sail ar gyfer gweithredu pellach;

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod cyrff perthnasol yn y sector cyhoeddus ac yn y trydydd sector yn cydweithio'n fwy effeithiol i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig â thai; a

5. Yn cydnabod y gorgyffwrdd helaeth rhwng meysydd fel tai, ymddygiad gwrthgymdeithasol, diogelwch cymunedol a phlismona, ac yn credu y byddai modd mynd i’r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol sy’n gysylltiedig â thai mewn ffordd fwy effeithiol pe bai pob un o'r meysydd hyn yn cael eu datganoli.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 41 | 0 | 11 | 52 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi’i ddiwygio.**

**8 Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i gymeradwyo’r Bil Addysg (Cymru)**

Dechreuodd yr eitem am 16.28

Ar ddiwedd Cyfnod 3 caiff y Weinidog gynnig bod y Bil yn cael ei basio yn unol â Rheol Sefydlog 26.47:

Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i gymeradwyo'r Bil Addysg (Cymru).

Cynhaliwyd pleidlais ar cynnig

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 37 | 11 | 4 | 52 |

**Derbynwyd y cynnig.**

**Cyfnod Pleidleisio**

Dechreuodd yr eitem am 16.41

Daeth y cyfarfod i ben am 16.44

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 26 Mawrth 2014**